# CODI COFEB

**Mae cynllun ar y gweill i godi cofeb ar y safle lle lladdwyd cannoedd o filwyr o Gymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys y bardd Hedd Wyn.**




*Hedd Wyn*




*Llun: David Edgar*

Bu'r Corfflu Cymreig yn brwydro yn Nhrydedd Brwydr Ypres neu Passchendaele yn 1917, lle bu farw 70,000 o filwyr Prydeinig. Ond mae Cymdeithas Passchendaele yng Ngwlad Belg am godi 50,000 euro (£44,000) i greu cofeb ar ffurf Draig Goch. Y nod yw codi rhywfaint o'r arian yng Nghymru.

Dywedodd cadeirydd y gymdeithas, Freddy Declerck, mai syniad Marc Decaestecker, perchennog bwyty ar y safle lle y lladdwyd Hedd Wyn, oedd hwn. "Mae Marc wedi gosod plac coffa ar yr adeilad, a dywedodd mai ei freuddwyd oedd gosod cofeb lawn iddo," meddai. "Ond fe ddywedais i y dylen ni greu grŵp i godi arian am gerflun er cof am yr holl filwyr o Gymru fu farw yma."

**'Arwr'**

Roedd llawer o'r milwyr a laddwyd yn y rhyfel yn aelodau o'r 38fed Adran Gymreig. Un ohonyn nhw oedd Ellis Humphrey Evans o Drawsfynydd gafodd ei ladd ar Orffennaf 31, 1917.

Pan oedd yn y ffosydd, roedd Evans neu Hedd Wyn, wedi cystadlu am y Gadair ar y thema 'Arwr' yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Yn ystod seremoni'r Cadeirio, cyhoeddwyd bod y bardd buddugol wedi syrthio ar faes y gad a chafodd y gadair ei gorchuddio â lliain du.

Clywodd y bardd Peter Carter Jones, o Abercraf, Cwm Tawe, am y syniad i godi'r gofeb ar ôl iddo gyfarfod â Mr Decaestecker yn ei fwyty yn Langemark, ger Ypres, tra ar ymweliad yno. "Mae e'n codi baner Cymru y dydd Llun cynta bob mis cyn cynnal gwasanaeth yno," meddai.

Mae Mr Decaestecker yn ymweld â Chymru yn aml a bydd pob Cymro neu Gymraes sydd yn galw heibio ei fwyty yn cael croeso mawr ac yn cael cyfle i astudio'r pethau er cof am Hedd Wyn sydd yn ei amgueddfa fechan.



Addasiad o BBC Cymru Newyddion ar-lein